

## **Ynghylch: Cynaeafu a Chludo yn Tyn y Cwm, Dolwyddelan.**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar fin ymgymryd â gwaith coedwigaeth yng Nghoedwig Tyn y Cwm, Dolwyddelan, er mwyn clirio'r cnwd conwydd yma gan gynnwys llarwydd sydd wedi'u heintio â *Phytophthora ramorum*. Byddan nhw'n cael gwared ar y llarwydd sydd wedi'u heffeithio er mwyn rheoli lledaeniad yr haint. Mae'r ardal sydd wedi'i effeithio yn ymestyn oddeutu 5.8 hectar.

Bydd contractwyr sy'n gweithio ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd ati i osod arwyddion lechyd a Diogelwch a byddwn i'n eich annog i dalu sylw i'r rhain ac ufuddhau i'r holl rybuddion os ydych chi'n mentro i'r goedwig. O ystyried lleoliad y safle, mae angen rheoli traffig a rheoli mynediad fel rhan o'r gwaith er mwyn sicrhau bod pawb yn ddiogel. Gallai hyn olygu cyfyngiadau dros dro ar fynediad cyhoeddus i'r safle o bryd i'w gilydd. Byddwn yn bwrw iddi i sicrhau ein bod yn amharu cyn lleied â phosibl ar y gymuned lle'n bosibl ond ein prif flaenoriaeth ydy sicrhau bod pawb yn ddiogel. Hoffem ddiolch ymlaen llaw i bawb am gydymffurfio. Bydd ein holl weithredwyr yn cadw mewn cyswllt dros y radio er mwyn sicrhau ein bod yn amharu ar y cyhoedd cyn lleied â phosibl. Ni fyddwn yn cyflawni unrhyw waith yn y goedwig ar benwythnosau.

Byddwn yn mynd ati i gludo'r coed unwaith inni gychwyn ar y gwaith. Byddwn yn cael gwared ar yr holl goed ar hyd y llwybrau mynediad sydd wedi'u hamlygu gyda llinell las ddotiog ar y cynllun ac yna ar hyd priffordd gyhoeddus yr A470 (gwelwch y dudalen nesaf.) Bydd cyfyngiadau cludo o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ni fyddwn yn cludo unrhyw goed ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau cyhoeddus.

Bydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn parhau i fod ar agor, ond mae'n bosibl y bydd angen eu heithrio dros dro oherwydd oedi byr, i'w rheoli gan bancsmyn y contractwyr. Am resymau diogelwch, unwaith y byddwn ni wedi torri coed yr adrannau perthnasol a gosod y coed ger ochr y ffordd, byddwn yn adolygu gwaith rheoli'r llwybrau ag arwyddbyst sydd wedi'u heffeithio.

Bydd mynedfeydd preswyl ac amaethyddol yn parhau i fod ar agor bob amser, ond mae'n bosibl y byddan nhw'n destun oedi byr wrth inni lwytho'r lorïau coed. Bydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn parhau i fod ar agor a bydd bancsmyn y contractwyr yn rheoli'r rhain am resymau diogelwch drwy gydol y gwaith. Unwaith y byddwn ni wedi torri coed yr adrannau perthnasol a gosod y coed ger ochr y ffordd, byddwn yn adolygu gwaith rheoli'r llwybrau ag arwyddbyst sydd wedi'u heffeithio.

Byddwn yn cludo'r coed o ddydd LLUN-GWENER AR ÔL 9.30YB AC YN YSTOD Y PRYNHAWN AR ÔL I'R YSGOL GAU. Mae diogelwch y plant o'r pwys mwyaf. NI FYDDWN YN CLUDO COED RHWNG 20.00YH A 9.30YB.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch y gwaith hwn, cysylltwch gyda Thîm Gweithrediadau Coedwigaeth Gogledd Orllewin Cymru ar 0300 065 3000 neu e-bostiwrch [ForestOperationsNW@cyfoethnaturiol.cymru](mailto:ForestOperationsNW@cyfoethnaturiol.cymru)